COFNODION Y CYFARFOD

**Dyddiad:** Dydd Mawrth 30 Ionawr 2001
**Amser:** 9.00am
**Lleoliad:** Ystafell y Llywydd (A3.13)

**Yn bresennol:** Kirsty Williams, Rheolwr Busnes y Democratiaid Rhyddfrydol (Cadeirydd)
Andrew Davies, y Trefnydd
Jocelyn Davies, Rheolwr Busnes Plaid Cymru
David Melding, y Blaid Geidwadol

John Lloyd, Clerc y Cynulliad
David Lambert, Cynghorydd Cyfreithiol Swyddfa'r Llywydd
Andrew George, Clerc y Pwyllgor Busnes
Marion Stapleton, Ysgrifennydd Preifat y Trefnydd
Craig Stephenson, Ysgrifenyddiaeth y Siambr
Alun Gruffudd, Ysgrifennydd Preifat y Dirprwy Lywydd
Marie Knox, Pennaeth Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgorau (eitemau 6 a 9 ar yr agenda)
Nerys Arch, Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol (eitem 8 ar yr agenda)

## 1. Ymddiheuriadau a chyhoeddiadau

1.1 Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth y Dirprwy Lywydd a William Graham. Roedd Kirsty Williams wedi cytuno i gadeirio'r cyfarfod yn unol â Rheol Sefydlog 13.4, a chynrychiolwyd William Graham gan David Melding yn unol â Rheol Sefydlog 13.3.

## 2. Cofnodion y cyfarfod blaenorol

### BC11.01 (terfynol)

2.1 Cyflwynwyd y cofnodion i'r Pwyllgor yn eu fformat terfynol. Gan nad oedd unrhyw sylwadau pellach, byddent yn cael eu cyfieithu yn barod ar gyfer eu cyhoeddi. **Gweithredu: Ysgrifenyddiaeth y Siambr**

### BC22-01 (drafft)

2.2 Cyflwynwyd y cofnodion i'r Pwyllgor yn eu fformat drafft. Cynigiwyd rhai gwelliannau bychain a gâi eu hymgorffori yn y fersiwn derfynol, a'u cyflwyno i'r Pwyllgor yn ei gyfarfod nesaf. **Gweithredu: Ysgrifenyddiaeth y Siambr**

## 3. Materion sy'n codi

3.1 **Paragraff 3.4** – Dywedodd y Trefnydd taw cyfrifoldeb Swyddfa’r Llywydd a’r Weithrediaeth ar y cyd oedd cyhoeddi is-ddeddfwriaeth. Cytunwyd y byddai’r Pwyllgor yn gwahodd y Cwnsler Cyffredinol i fynychu cyfarfod yr wythnos ganlynol er mwyn trafod y mater. **Gweithredu: Ysgrifenyddiaeth y Siambr**

3.2 **Paragraff 4.1** – Gofynnwyd i’r Rheolwyr Busnes adrodd yn ôl ar gynnig y dylid darparu amser mewn Cyfarfodydd Llawn ar gyfer dadleuon ar faterion rhyngwladol. Dywedodd y Rheolwyr Busnes y byddent yn rhoi gwybod beth yw barn eu grwpiau yn y cyfarfod nesaf, er taw’r farn ar y cychwyn oedd bod y darpariaethau presennol yn ddigonol. Cynigiodd y Trefnydd fod hyn yn rhywbeth y byddai Adolygiad Gweithdrefnau’r Cynulliad yn dymuno edrych arno, o bosibl. **Gweithredu: Y Rheolwyr Busnes i adrodd yn ôl yng nghyfarfod yr wythnos ganlynol; Marie Knox i adrodd yn ôl i ysgrifenyddiaeth yr Adolygiad.**

## 4. Materion a gyfeiriwyd o’r Cyfarfodydd Llawn

4.1 Ystyriodd y Pwyllgor y papur BC30-01 – dyfyniad o Gofnod y Trafodion ar gyfer y Cyfarfod Llawn ar 25 Ionawr, lle y mynegwyd pryder ynghylch cynnwys datganiad gan y Cabinet a’r weithdrefn ar gyfer gofyn cwestiynau yn ei gylch. Roedd y Llywydd wedi gofyn i’r Pwyllgor Busnes edrych ar y mater. Teimlai’r Pwyllgor fod y datganiad dan sylw wedi bod yn un go dechnegol, a bod angen i’r Gweinidog grisialu’r manylion yn y datganiad hwnnw. Awgrymwyd hefyd na fyddai’r Llywydd wedi caniatáu i Aelod ofyn mwy nag un cwestiwn i’r Gweinidog petai Aelodau eraill yn disgwyl siarad. Cytunwyd y byddai o gymorth pe bai gweithdrefnau sy’n gysylltiedig â datganiadau gan y Cabinet yn cael eu gwneud yn fwy eglur, tra’n diogelu hyblygrwydd y Llywydd yn ystod y trafodion. Byddai’r Rheolwyr Busnes yn ystyried y mater gyda’u grwpiau ac adrodd yn ôl yn y cyfarfod nesaf. **Gweithredu: Y Rheolwyr Busnes**

4.2 Dywedodd y Trefnydd fod y Gweinidog dros Addysg yn pryderu y cafodd ei chyfraniad i’r ddadl plaid leiafrifol ar 25 Ionawr ei gwtogi. Dywedodd fod y Pwyllgor Busnes wedi ystyried y mater cyn hyn, ac na chadwyd at benderfyniad y Pwyllgor ar yr achlysur hwn. Teimlai’r Aelodau fod ymateb y Gweinidog yn bwysig, ac y dylid caniatáu digon o amser. Dywedodd John Lloyd y byddai’n gadael i’r Llywydd wybod barn y Pwyllgor.

## 5. Cyngor i’r Cynulliad ar weithdrefnau

5.1 Dim

## 6. Pwyllgorau

6.1 Ystyriodd y Pwyllgor y papur BC26-01, a chytuno arno. Cais oedd hwn oddi wrth y Pwyllgor Diwylliant am gyfarfod ychwanegol ar 15 Chwefror. **Gweithredu: Ysgrifenyddiaeth y Siambr i gynghori Clerc y Pwyllgor Diwylliant.**

6.2  Ystyriodd y Pwyllgor y papur BC27-01, a chytuno arno. Cais oedd hwn oddi wrth y Pwyllgor Addysg am gyfarfod ychwanegol ar 17 Mai. **Gweithredu: Ysgrifenyddiaeth y Siambr i gynghori Clerc y Pwyllgor Addysg.**

6.3  Ystyriodd y Pwyllgor y papur BC29-01 ynghlych dadleuon mewn Cyfarfodydd Llawn ar adroddiadau pwyllgorau pwnc.  Dywedodd Marie Knox ei bod wedi paratoi'r papur er mwyn mynd i'r afael â'r pryderon a fynegwyd yn dilyn dadleuon pwyllgorau pwnc diweddar , a manylodd ar yr egwyddorion a amlinellir yn y papur.  Cytunodd Jocelyn Davies a David Melding ill dau fod y papur yn un defnyddiol, ac roeddynt yn cytuno ar yr egwyddorion cyffredinol. Dywedodd y Trefnydd y byddai eisiau ystyried y papur gyda'r Cabinet oherwydd yr egwyddorion sylfaenol a oedd dan sylw.  Gofynnodd Marie Knox a ellid ystyried hyn cyn y ddadl ar adroddiad y Pwyllgor Addysg ar 6 Mawrth, oherwydd bod yr Aelodau eisoes yn dechrau trafod sut y bwriedid ymdrin â'r ddadl.  **Gweithredu: Y Trefnydd i ystyried y papur gyda'i gydweithwyr yn y Cabinet.**

## <u>7.  Busnes sydd ar y gweill</u>

### Busnes yr wythnos hon

7.1  Dywedodd y Trefnydd y ceid datganiad gan Edwina Hart y prynhawn hwnnw er mwyn rhoi'r newyddion diweddaraf i'r Cynulliad ynghylch y sefyllfa o ran Ceiswyr Lloches, a cheid datganiad gan Mike German ynghylch colledion swyddi yn ffatri Valeo yng Ngorseinon.  Roedd y Cabinet wedi disgwyl y byddai Corus wedi gwneud datganiad ar ei ddyfodol yn Llanwern erbyn hyn. Cydnabu'r Rheolwyr Busnes fod y rhaglen fusnes ar gyfer y prynhawn hwnnw wedi ei gadw mor wag â phosibl er mwyn caniatáu dadl ar y mater.  Oherwydd y disgwylid datganiad, efallai y diwrnod canlynol, gofynnodd y Trefnydd i'r Rheolwyr Busnes am eu barn ar ohirio busnes ar y dydd Iau er mwyn trafod y mater, neu ar gyfer Cyfarfod Llawn arbennig ar ddydd Mercher 31 Ionawr. **Gweithredu: Y Rheolwyr Busnes**

7.2  Dywedodd y Trefnydd y byddai Jane Hutt yn gwneud datganiad yn y Cyfarfod Llawn ar ddydd Iau 1 Chwefror ar Strategaeth yr NHS.  Oherwydd pryderon David Melding y gwneid datganiad cyn y byddai'r ddogfen ar gael i'r Aelodau, cytunodd y Trefnydd i siarad â'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol er mwyn cael eglurhad o'r sefyllfa ac adrodd yn ôl i'r Rheolwyr Busnes.  Dywedodd Jocelyn Davies y byddai'n destun pryder iddi petai'r ddogfen yn cael ei chyhoeddi yn enw'r Cynulliad Cenedlaethol pan efallai na fyddai'r Aelodau wedi ei hystyried na hyd yn oed ei gweld, un ai mewn Cyfarfod Llawn neu Bwyllgor.  **Gweithredu: Y Trefnydd i drafod gyda'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

7.3  Ystyriodd y Pwyllgor y datganiad busnes drafft (BC31-01).

### <u>Busnes a gynigir ar gyfer yr wythnosau sy'n dechrau ar 5, 12 a 26 Chwefror 2001</u>

7.4  Dywedodd y Pwyllgor wrth y Trefnydd y dylai busnes y Cynulliad fynd ymlaen fel yr amlinellwyd yn ei ddatganiad busnes ynghylch trefn y Cynulliad ar gyfer yr wythnosau sy’n dechrau ar 5, 12 a 26 Chwefror .

7.5  Gofynnodd David Melding i’r Trefnydd ystyried trefnu amser ar gyfer dadleuon ar:

- Y Papur Gwyn ar Iechyd Meddwl
- Sut yr oedd y Concordatiau yn gweithio
- Dyfodol ysgolion cefn gwlad
- Ymateb y llywodraeth i restri aros ysbytai (i’w drefnu ar gyfer mis Ebrill)

Dywedodd y Trefnydd fod dadl ar y Papur Gwyn ar Iechyd Meddwl ar y gweill yn barod, a’i fod wedi nodi’r materion eraill.

## 8.  Is-ddeddfwriaeth

### Gorchymyn Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 (Cyfathrebu Electronig) (Cymru) 2001

8.1  Nododd y Pwyllgor Busnes y papur BC24-01 a oedd yn darparu cyngor oddi wrth Edwina Hart, Gweinidog y Cynulliad dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau ar sut i ymdrin â’r Gorchymyn uchod. Dywedodd Aelodau’r Pwyllgor Busnes wrth y Cadeirydd eu bod yn fodlon â’r cynnig i beidio ag anfon y Gorchymyn drafft at bwyllgor pwnc, a chytunwyd y dylai ddilyn y weithdrefn Safonol.
**Gan hynny, penderfynodd y Llywydd nad oedd angen i’r Gorchymyn gael ei gyfeirio at bwyllgor pwnc.**

### Rheoliadau Addysg (Cofnodion Disgyblion) (Cymru) 2001

8.2  Nododd y Pwyllgor Busnes y papur BC25-01 a oedd yn darparu cyngor oddi wrth Jane Davidson, Gweinidog y Cynulliad dros Addysg ar sut i ymdrin â’r Gorchymyn uchod. Dywedodd Aelodau’r Pwyllgor Busnes wrth y Cadeirydd eu bod yn fodlon â’r cynnig i beidio ag anfon y Gorchymyn drafft at bwyllgor pwnc, a chytunwyd y dylai ddilyn y weithdrefn Garlam.
**Gan hynny, penderfynodd y Llywydd nad oedd angen i’r Gorchymyn gael ei gyfeirio at bwyllgor pwnc**.

## 9.  Diwygiadau i’r Rheolau Sefydlog

Ystyriodd y Pwyllgor y papur BC28-01, a oedd yn manylu ar y diwygiadau a gynigiwyd i Reol Sefydlog 12. Amlinellodd Marie Knox bedwar opsiwn ar gyfer anghymwyso Aelodau o’r Pwyllgor Archwilio; cynigion i gysoni’r trefniadau ar gyfer ethol cadeirydd dros dro gyda’r darpariaethau yn Neddf Llywodraeth Cymru; a threfniadau dirprwyo ar gyfer Aelodau’r Pwyllgor.  Dywedodd y Trefnydd y byddai eisiau trafod y cynigion gyda’i grwp.  Cytunwyd y dylai’r Rheolwyr Busnes adrodd barn eu grwpiau yn ôl yn y cyfarfod ar 13 Chwefror. Pe ceid cytundeb, yna byddai angen ystyried cynnig i ddiwygio’r Rheolau

Sefydlog mewn Cyfarfod Llawn cyn cyfarfod nesaf y Pwyllgor.  Cytunodd y Rheolwyr Busnes, gyda chaniatâd y Llywydd, y gellid cynnig cynnig heb ddiwrnod trafod, pe ceid cytundeb rhwng pob un o'r pleidiau ar y cynigion.
**Gweithredu: Y Rheolwyr Busnes i adrodd yn ôl ar 13 Chwefror**

**10. Penderfyniadau'r Llywydd**

10.1  Dim

**11. Unrhyw fusnes arall**

11.1  Gofynnodd y Trefnydd i'r Rheolwyr Busnes ystyried sut y dylid cynnal busnes yn ystod cyfnod yr Etholiad Cyffredinol.  Tra cafwyd consensws cyffredinol y dylai fod y fater o "*fusnes fel arfer*", roedd y Trefnydd eisiau gwybod eu barn ynghylch a ddylai'r Cyfarfod Llawn ar ddiwrnod pleidleisio fynd yn ei flaen, gael ei ddiddymu neu ei ohirio.  Teimlai David Melding, o ran egwyddor, na ddylai'r Cynulliad eistedd ar ddiwrnod pleidleisio, tra dywedodd Jocelyn Davies y byddai'n well gan ei grwp hi gael eisteddiad.  Cytunwyd y byddai'r Rheolwyr Busnes yn ystyried y mater gyda'u grwpiau ac yn adrodd yn ôl.  **Gweithredu: Y Rheolwyr Busnes**

**YSGRIFENYDDIAETH Y SIAMBR**